# Cynigion arbennig a mynediad am ddim i atyniadau



Ymwelwyr yn Amgueddfa Glanfa Windermere, sy'n cynnig mynediad am ddim fel rhan o'r wythnos. Credyd: Tom Arran.

Cynhelir Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol rhwng dydd Sadwrn 7 a dydd Sul 15 Mawrth 2026, a bydd cannoedd o leoliadau treftadaeth yn cymryd rhan.

Mynnwch gip ar y gorffennol mewn tai hanesyddol, cestyll ac amgueddfeydd neu cofleidiwch natur yn ei holl ogoniant mewn llu o fannau bywyd gwyllt poblogaidd fis Mawrth yma.

I ddweud diolch am y £32 miliwn a godir ar gyfer achosion da gan chwaraewyr bob wythnos, mae lleoliadau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn cynnig mynediad am ddim, gostyngiadau a bargeinion arbennig.

Gyda mwy na 600 o gynigion ar gael, y cyfan sydd ei angen arnoch i ddechrau fforio yw tocyn neu gerdyn crafu'r Loteri Genedlaethol!

## Ble byddwch chi'n ymweld?

### Mynediad am ddim

Mae cannoedd o safleoedd a lleoliadau’r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** yn agor eu drysau am ddim, gan gynnwys Castell a Gardd Powis yng Nghymru, Sutton Hoo yn Suffolk, Castell Lindisfarne yn Northumberland a Florence Court yng Ngogledd Iwerddon.

**Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Yr Alban** yn cynnig mynediad am ddim i leoedd fel The Hill House, Amgueddfa Man Geni Robert Burns a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Glencoe.

Ewch ar daith i safleoedd Treftadaeth Lloegr rhagorol am ddim, gan gynnwysNeuadd a Gerddi Brodsworth, Castell Dover a Chastell Pendennis.

Ewch allan yn yr awyr agored ac archwiliwch warchodfeydd natur llawn bywyd yr RSPB, fel Strumpshaw Fen, Saltholme a Chonwy.

Gallwch hefyd gael mynediad am ddim i:

- Barc Cerfluniau Swydd Efrog
- Amgueddfa Man Geni Robert Burns
- Amgueddfa Brunel
- Prosiect Eden
- Abaty Delapré
-

### Teith




Mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru yn darparu teithiau tu ôl i'r llenni.

Cerddwch yn ôl troed milwr Rhufeinig yng Nghaer ac Amffitheatr Richborough, archwiliwch y 'Maritime Mile' ar hyd Glannau Hanesyddol Belfast neu neidiwch ar daith yn Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru.

### Bargeinion 2-am-1 a gostyngiad 50%

Camwch i mewn i hanes yn lleoliad eiconig T?r Llundain, dewch o hyd i storïau yng Nghastell Hillsborough neu olrhain hanes y gêm brydferth yn Amgueddfa Bêl-droed Yr Alban – y cyfan gyda gostyngiad 50%.



Mae s … din yn darpar …

Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn derbyn mynediad 2 am 1 i theatrau 4D Amgueddfa'r Awyrlu Brenhinol. Credyd: RAF Museum.

### Cynigion arbennig

Ymwelwch â Th? Harewood gyda thocynnau disgownt, mynnwch fynediad am ddim i blant yn y Baddonau Rhufeinig, neu profwch hedfan gyda'r Red Arrows yn theatr 4D anhygoel Amgueddfeydd yr Awyrlu Brenhinol.

## Dewch o hyd i gynnig yn eich ardal chi

Archwiliwch yr holl gynigion sydd ar gael yn ystod yr Wythnos Agored ar wefan y Loteri Genedlaethol.

Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr i glywed am gyfleoedd fel hyn yn y dyfodol.



### …efyd mewn …





Players from the Scottish Ensemble, one the partners who will use the historic McLellan Galleries on Sauchiehall Street in Glasgow following restoration. Photo: James Chapelard.

## We've invested £10million to revitalise historic places and bring communities closer to their



Ulster Folk Museum is creating new facilities and ways for people to get involved. Credit: Johnny Frazer.



## Museum

Un o locomotifau Tal-y-llyn. Credyd: Luke Ryan.

## Mae ein buddsoddiad o £3.7 miliwn yn helpu Rheilffordd Tal-y-llyn i warchod treftadaeth drafnidiaeth drysoredig